**Mick Antoniw AS/MS**
**Y Cwnsler Cyffredinol**
**Counsel General**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: CG/PO/180/2024

Mike Hedges, Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad Committee
Senedd Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd
CF99 1SN

5 Gorffennaf 2024

Annwyl Mike

**Bil Deddfwriaeth**

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyhoeddi ei bwriad i gyflwyno Bil Deddfwriaeth i ddelio â diddymu a diwygio darpariaethau nad ydynt mwyach o unrhyw ddefnydd na budd ymarferol. Bydd y Bil hefyd yn ymdrin â rhai mân ddiwygiadau i Ddeddf Deddfwriaeth (Cymru) 2019. Crybwyllwyd yr angen i'w diwygio yn yr adolygiad o Ddeddf 2019 a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2023 fel rhan o'r adroddiad blynyddol diweddaraf ar y rhaglen i wella hygyrchedd y gyfraith yng Nghymru.

Rwyf hefyd yn disgwyl y bydd y Bil yn ffurfioli ac yn moderneiddio'r trefniadau presennol ar gyfer gwneud a chyhoeddi deddfwriaeth Cymru. Bydd hyn yn cynnwys rhoi "Offerynnau Statudol Cymru" ar sail statudol a chyfansoddiadol debyg i'r trefniadau ar gyfer Offerynnau Statudol yr Alban a Rheolau Statudol Gogledd Iwerddon. Ar hyn o bryd mae'r offerynnau sydd wedi'u labelu'n Offerynnau Statudol Cymru mewn gwirionedd yn Offerynnau Statudol y DU ac yn cael eu nodi ag is-rif.

Mae trafodaethau ar y gweill gyda'r Archifau Gwladol cyn cysylltu'n ffurfiol ag Argraffydd y Brenin ynglŷn â'r Bil. Yn hynny o beth, hoffwn hefyd gynnig cyfle i'r Pwyllgor gael sesiwn friffio dechnegol gyda fy swyddogion. Os yw hyn yn rhywbeth yr hoffai'r Pwyllgor ei gael, byddwn yn ddiolchgar pe bai Clerc y Pwyllgor yn cysylltu â Rheolwr y Bil – y mae ei fanylion eisoes gan y Clercod.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mick.Antoniw@llyw.cymru
Correspondence.Mick.Antoniw@gov.Wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn gywir,



**Mick Antoniw AS/MS**
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General